| | DATBLYGIAD PERSONOL A CHYMDEITHASOL,LLES & AMRYWIAETH DDIWYLLIANNOL | | | | SGILIAU IAITH, LLYTHRENNEDD A CHYFATHREBU | | | | DATBLYGIAD MATHEMATEGOL | | | | DATBLYGIAD CORFFOROL | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Rhyngweithio cymdeithasol** | **Rheoli ymddygiad** | **Ymateb i eraill** | **Annibynniaeth mewn gofal personol** | **Llafaredd – Gwrando a deall** | **Llafaredd – Ymwybyddiaeth ffonolegol** | **Llafaredd – Iaith fynegiannol** | **Darllen – Deall deunyddiau darllen** | **Adrodd a dilyniannu rhifau** | **Cyfrif** | **Siap** | **Patrwm** | **Dal offeryn gwneud marciau** | **Cydsymudiad** | **Darlunio** | **Llawdrin manwl** |
| Efydd | Cymryd rhan mewn chwarae cymdeithasol wedi'i gychwyn gan blant hŷn a/neu oedolion. | Ymateb i gael eu tawelu. | Symud sylw rhwng gwrthrych a'r sawl sy'n rhoi gofal yn ystod chwarae un i un. | Dangos dealltwriaeth o achos ac effaith sylfaenol. | Ymateb gyda dealltwriaeth i rai geiriau a ddefnyddir yn eu cyd-destun arferol. | Dangos diddordeb wrth wrando ar ganeuon a rhigymau. | Defnyddio synau neu eiriau syml yn bwrpasol ac yn ceisio enwi gwrthrychau cyfarwydd. | Ymateb i ysgogiadau gweledol a chyffyrddol. | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | Archwilio gwrthrychau rhifadwy. | Archwilio siapiau cyffyrddol syml. | Dilyn patrwm clapio syml iawn. | Rhyddhau gwrthrychau yn fwriadol. | Cropian neu symud fel arall yn dda a thynnu i sefyll trwy ddefnyddio'r dodrefn. | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | Defnyddio un llaw neu'r ddwy law i archwilio gwrthrychau. |
| Arian | Cymryd rhan mewn ystod o chwarae un i un wedi'i gychwyn gan blant hŷn a/neu oedolion. | Ymateb fel arfer i reoli gan oedolyn cyfarwydd. | Ymateb yn wahanol i'r rhai sy'n rhoi gofal ac oedolion anghyfarwydd. | Dangos dealltwriaeth o wrthrychau a ddefnyddir mewn arferion gofal. | Ymateb i gyfathrebu syml a chyfarwydd sy'n cynnwys un cam ar y tro. | Dangos diddordeb mewn caneuon a rhigymau cyfarwydd ac ymuno gyda'r rhannau cyfarwydd. | Defnyddio rhai geiriau cyfarwydd i enwi gwrthrychau ac yn cysylltu dau air at ei gilydd i gyfleu ystyr. | Archwilio llyfrau cyffyrddol a rhyngweithiol gyda chymorth. | Gwrando ar rigymau rhif, caneuon a straeon cyfarwydd a dweud neu ddangos o leiaf un rhif. | Dynwared oedolyn yn cyfrif. | Ffitio siapiau 2D syml i fylchau. | Ailadrodd patrwm clapio syml. | Dal creon/sialc yn eu dwrn, fel petaent yn ei ddefnyddio i wneud marciau. | Cerdded yn dda heb gymorth. | Sgriblo gyda symudiad ar hap. | Defnyddio un llaw neu'r ddwy law i dynnu gwrthrychau. |
| Aur | Chwarae wrth ymyl plant neu oedolion gan ddangos diddordeb weithiau yn yr hyn y maent yn ei wneud. | Ymateb yn briodol i ffiniau cyson. | Ymateb yn briodol i gyfarchion cymdeithasol gan bobl gyfarwydd. | Dechrau helpu gydag arferion gofal personol. | Ymateb i gyfarwyddiadau un cam syml a chyfarwydd. | Dangos diddordeb mewn caneuon a rhigymau cyfarwydd a newydd ac ymuno yn y canu neu'r symudiadau. | Siarad am wrthrychau cyfarwydd mewn ffordd syml, gan gyfuno mwy na dau air gyda'i gilydd i ffurfio brawddegau syml. | Archwilio llyfrau cyffyrddol a rhyngweithiol yn annibynnol | Gwrando ar rigymau, caneuon a straeon rhif cyfarwydd a dweud neu ddangos mwy nag un rhif. | Cyfrif neu ddynodi dau wrthrych gyda chymorth. | Archwilio siapiau 2D a gwrthrychau 3D yn eu chwarae. | Copïo patrwm clywedol syml. | Dal creon/sialc yn eu dwrn wrth wneud marciau. | Rhedeg mewn llinell syth a phlygu neu gyrcydu i godi gwrthrych a sefyll eto heb gwympo. | Sgriblo'n annibynnol, gydag ychydig o reolaeth. | Defnyddio'r dwylo i dynnu defnyddiau oddi wrth ei gilydd a rhoi defnyddiau at ei gilydd. |
| O1 | Chwarae ar eu pennau eu hunain neu'n baralel â phlant eraill wrth ymyl oedolyn cyfarwydd yn aml. | Deall fod rhai mathau o ymddygiad yn annerbyniol. | Ymateb i gyfarchion cymdeithasol gan bobl gyfarwydd ac anghyfarwydd. | Gyda chymorth, cwblhau arferion gofal personol hunangymorth bob dydd ac yn awyddus i helpu fel arfer. Maent yn dangos gwybodaeth o arferion gofal cyfarwydd. | Ymateb i gyfarwyddiadau un cam digymell a dangos dealltwriaeth o ymadroddion syml. | Gwrando ar ganeuon a rhigymau ac ymuno a, gyda chymorth, dechrau cymryd rhan mewn chwarae â geiriau. | Dechrau defnyddio geiriau newydd eu dysgu yn eu chwarae. Maent yn 'siarad' â'u hunain, â phlant eraill ac ag oedolion cyfarwydd gan ddefnyddio brawddegau syml. | Deall strwythur sylfaenol deunyddiau darllen. | Gyda chymorth, adrodd y rhifau 1 i 3. | Defnyddio cyfatebiaeth un i un i gyfrif hyd at dri gwrthrych. | Archwilio priodweddau siapiau 2D a 3D yn eu chwarae. | Dechrau dangos eu bod yn adnabod patrwm yn yr amgylchedd. | Dechrau dal creon/sialc gan ddefnyddio pob bys a'r bawd. | Rhedeg mewn llinell syth, gan aros a dechrau yn rhwydd ac osgoi rhwystrau llonydd. Gallant berfformio mwy nag un weithred a gallant gydsymud aelodau'r corff i deithio mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys neidio gyda'r ddwy droed. | Sgriblo'n annibynnol gan gynnwys cromliniau, llinellau syth a dotiau. | Defnyddio dwylo i drin ac archwilio defnyddiau syml a chyffyrddol. Gallant adeiladu tŵr chwe bloc. |
| O2 | Chwarae gyda phlant eraill fel arfer. | Deall disgwyliadau ymddygiadol syml. | Dechrau uniaethu ag emosiynau eraill ac efallai yn hoffi helpu oedolion a chyfoedion ond nid os yw'n gwrthdaro â'u diddordebau eu hunain. | Dechrau cyflawni arferion gofal yn annibynnol a dangos rhywfaint o ymwybyddiaeth o beryglon. | Gwrando gyda mwy o sylw a chanolbwyntio. Maent yn dangos dealltwriaeth o gyfarwyddiadau dau gam a chysyniadau sylfaenol ac yn gofyn cwestiynau syml priodol. | Gwrando ar ganeuon a rhigymau ac ymuno, gan gymryd rhan mewn chwarae â synau a geiriau. | Defnyddio geiriau newydd eu dysgu a'r eirfa berthnasol mewn brawddegau cyflawn gyda phump neu fwy o eiriau yn eu chwarae. | Dewis gwahanol fathau o ddeunyddiau darllen syml ac yn gwneud ystyr o'r lluniau, dal llyfrau'r ffordd gywir a throi tudalennau. | Adrodd rhifau 1 at 10, ymlaen ac yn ôl, gan ddefnyddio caneuon a rhigymau. Maent yn cymharu ac yn trefnu setiau o hyd at 5 gwrthrych. | Defnyddio cyfatebiaeth un i un i gyfrif hyd at bum gwrthrych. | Adnabod ac enwi siapiau 2D syml neu ddefnyddio siapiau 2D a 3D yn eu chwarae. | Copïo amrywiaeth o batrymau syml â'r golwg ac â'r clyw. | Dechrau dal creon/pensil mawr gan ddefnyddio dau i dri bys a'r bawd. | Newid cyfeiriad i redeg o amgylch rhwystrau llonydd. Maent yn dangos cydbwysedd a chydsymudiad gwell i gael at amrywiaeth o offer. Gallant sefyll ar un droed am eiliad. | Tynnu lluniau sy'n cynnwys siapiau sylfaenol fel cylchoedd, hirgrynion a llinellau. | Trin ac archwilio defnyddiau ac offer cyffyrddol. Gallant adeiladu tŵr naw neu ddeg bloc. |
| O3 | Chwarae'n gydweithredol gyda phlant eraill yn aml. | Dechrau adnabod ymddygiad priodol ar gyfer sefyllfaoedd gwahanol, wedi'i fodelu'n aml ar safonau oedolion sydd wrth eu hymyl, ymateb i reswm ac ymdopi â newid mewn arferion. | Ymateb i eraill gyda mwy o sensitifrwydd i'w hanghenion. | Cyflawni'r rhan fwyaf o arferion gofal personol yn annibynnol a deall peryglon sylweddol. | Dangos eu bod wedi gwrando ar eraill. Maent yn deall cyfarwyddiadau tri cham a chysyniadau sylfaenol. Fel arfer byddant yn ymateb yn briodol i bobl ac ysgogiadau ac yn gofyn cwestiwn priodol am rywbeth a gafodd ei ddweud. | Gyda rhywfaint o gymorth, dysgu ar gof a pherfformio caneuon a rhigymau a dangos eu bod yn adnabod rhythm, odl a chyflythrennu llafar.Maent yn chwarae â synau mewn geiriau, gan gynnwys dewis ac adnabod synau cychwynnol. | Defnyddio ystod briodol a chynyddol o eirfa mewn ymadroddion a brawddegau cyflawn. | Dewis deunyddiau darllen gan gynnwys llyfrau, a deall confensiynau print. Maent yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng testunau. | Adrodd hyd at 20 ac mewn dilyniannau syml. Maent yn cymharu ac yn trefnu setiau o hyd at 10 gwrthrych. | Cyfrif hyd at 10 gwrthrych yn ddibynadwy. | Adnabod siapiau 2D a 3D syml, gan eu disgrifio mewn iaith syml a'u defnyddio yn eu chwarae. | Adnabod ac ailadrodd patrymau o hyd at dri â'r golwg ac â'r clyw. | Dal creon/pensil gan ddefnyddio dau neu dri bys a'r bawd. | Dangos mwy o reolaeth a chydsymudiad mewn amrywiaeth o weithgareddau, gan arddangos sgiliau corfforol sylfaenol a defnyddio amrywiaeth o gyfarpar, gan weithio'n ddiogel yn eu gofod eu hunain. | Tynnu lluniau gan gynnwys gwrthrychau wedi eu ffurfio o ddau neu dri siâp sylfaenol wedi eu cysylltu â'i gilydd. | Rhoi gleiniau ar gareiau ac yn gallu trin a chloi adnoddau priodol at ei gilydd. |

# PROFFIL CYFNOD SYLFAEN

Enw'r plentyn : ……………………………………………………………………….. Enw'r lleoliad : ………………………………………………………………………………..

Dyddiad geni : ………………………………………………………………………. Rhyw: Gwryw / Benyw

Iaith y cartref : ……………………………………………………………………… Iaith yr asesiad : ………………………………………………………………………………

Dyddiad cychwyn yn y lleoliad : ………………………………………………… Dyddiad cychwyn y Cyfnod Sylfaen : ……………………………………………………

Nifer y sesiynau a fynychir yn wythnosol : 1 2 3 4 5 Presenoldeb : rheolaidd afreolaidd

Ariannwyd gan Dechrau'n Deg : Oedd Nac oedd

Dogfennaeth ychwanegol ar gael e.e C.Ch.U / asiantaethau allanol:

Oes / nac oes

| Deilliant Terfynol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | P&Ch | ILL&Ch | DM | DCo |
| Dechrau | | | | |
| Gwaelodlin Cyfnod Sylfaen | | | | |
| Diwedd | | | | |

(* Dechrau a Diwedd yn opsiynol )

**Rwy'n caniatau i'r ddogfen hon gael ei rhannu gydag Asiantaethau Addysgol a'I throsglwyddo i'r ysgol berthnasol**

**Enw'r Ysgol :** ……………………………………………………………………………………………………………………………………………………

**Llofnod** : ………………………………………………………………………………………………………………………………………………………..

**Perthynas i'r plentyn** : …………………………………………………………………………………………………………………………………………..